OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | *2 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), (2)(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau) 2014.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd i mewn i gilfan y gefnffordd a leolir i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y ffordd fynediad i Eglwys y Santes Fair hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ganol honno.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 30 Medi 2014.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CILFAN I'R DWYRAIN O LANFAIR PWLLGWYNGYLL, YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU) 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n dod i rym ar 2 Hydref 2014.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru, rhag mynd i mewn i'r gilfan a leolir i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y ffordd fynediad i Eglwys y Santes Fair hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ganol honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Medi 2014 ymlaen, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH a Chyngor Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW, neu gellir ei gael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

a. nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984; neu

b. bod ei fuddiannau wedi'u rhagfarnu'n sylweddol drwy fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 30 Medi 2014, wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: ‘Deddfwriaeth’, ‘Is-ddeddfwriaeth’, ‘Offerynnau Statudol Lleol’, ‘Gorchmynion Traffig Parhaol’, ‘2014’).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru